# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 12.07.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Eric M. Jones, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu – ar gyfer eitemau 1-5 ar y rhaglen)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Liz Saville Roberts

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14 yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Linda W. Jones.**

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2013 fel rhai cywir.

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 5. PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL

Adroddwyd ar ganlyniadau'r Ganolfan Asesu.

Cyfwelwyd un ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i benodi Awen Morwenna Edwards i'r swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:30p.m. a daeth i ben am 4.00pm